



CEFNOGI  
EICH  
PONTIO I'R  
COLEG

2022-2023

Credwch **FWY**. Dysgwch **FWY**. Byddwch **FWY**.



01

Ein Cymorth Pontio i Ddysgwyr

02

Ein Digwyddiadau Pontio

03

Ein Partneriaid Pontio

04

Angen Mwy o Wybodaeth?

05


Cwestiynau

**Cynnwys**

01

**Ein  
Cymorth  
Pontio  
i Bob  
Dysgwr**





Rydym yn deall bod dod i'r Coleg yn gam mawr ac nid ydym am i chi fod yn bryderus neu'n nerfus ynghylch symud ymlaen o amgylchedd ysgol.

Rydyn ni am sicrhau eich bod chi'n gwneud y gorau o'n hamgylchedd Coleg, eich bod chi'n datblygu'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch hyder a'ch bod chi'n symud ymlaen i'r yrfa o'ch dewis.

Rydym yn cynnig profiad pontio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn eich cefnogi'n llawn yn ystod eich amser gyda ni.


Bydd ein tîm staff profiadol iawn yn cynnig 'pontio' sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i Goleg Sir Benfro.



## GALLWN NI:

- Trefnu ymweliad unigol i chi gyda ffrind, rhiant neu ofalwr i gwrdd â staff ac edrych ar gyfleusterau, adnoddau neu offer y coleg;
- Darparu person cyswllt a enwir i chi yn y Coleg y gallwch anfon e-bost neu siarad â nhw os oes gennych unrhyw ymholiadau;
- Trefnu i diwtor cwrs eich ffonio i drafod cwrs penodol - beth mae'n ei olygu, sut mae'n cael ei asesu, gofynion mynediad ac ati;
- Gwneud apwyntiad arweiniad i chi os nad ydych yn siŵr pa gwrs Coleg i wneud cais amdano;
- Trefnu i un o'n tîm cymorth dysgu a lles gysylltu â chi i drafod y cymorth rydyn ni'n ei gynnig yn y Coleg e.e. trefniadau cludiant, profiad gwaith, cymorth anghenion dysgu ychwanegol, trefniadau mynediad i arholiadau, cymorth anogwyr dysgu, cymorth anogwyr bugeiliol, cymorth ariannol a chymorth meddygol;

# RYDYN NI YMA I HELPŪ




- Eich gwahodd i ddigwyddiadau'r Coleg sy'n berthnasol i'r cwrs rydych chi wedi gwneud cais amdano fel y pantomeim a'r sioeau, arddangosfeydd celf, perfformiadau cerddorol ac ati;
- Ateb eich cwestiynau a rhoi sicrwydd i chi am unrhyw agwedd ar fywyd y Coleg;
- Trefnu i chi siarad â dysgwyr cyfredol a fynychodd eich ysgol am fywyd y Coleg; ac
- Anfon manylion atoch am ein Digwyddiadau Agored y Coleg, Digwyddiadau Gyrfaoedd, Diwrnodau Blasu a'n Rhaglenni Haf.

# Ein Hysgolion Partner

Yn ychwanegol at y gefnogaeth y gallwn ei darparu i bob ymgeisydd, mae gennym drefniadau pontio ychwanegol ar waith ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o un o'n hysgolion partner (Ysgol Bro Gwaun, Ysgol Penrhyn Dewi, Ysgol Gyfun Aberdaugleddau ac Ysgol Portfield).








Mae ein trefniadau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion yr ysgolion hyn yn cynnwys:

- Cynllun pontio unigol ar gyfer yr ysgol;
- Trefnu gyda'ch ysgol i chi ymweld â'r Coleg gyda'ch ffrindiau;
- Cyflwyniadau'r Coleg yng Nghynulladau Blwyddyn 11;
- Sgyrsiau cwricwlwm yn ystod Bl 11 yn tynnu sylw at yrfaedd a chyfleoedd dilyniant penodol;
- Apwyntiadau arweiniad 1:1 gyda staff cyfarwyddyd a chynghor am gyrsiau profiadol;
- Mynychu Nosweithiau Rhieni ysgol;
- Cynnig teithiau unigol i'r Coleg; a
- Gwahoddiad i ddigwyddiadau blasu cwricwlwm penodol e.e. peirianeg ac ati.

# Diogelu Ein Dysgwyr

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau  
bod ein holl ddysgwyr yn  
teimlo'n ddiogel wrth astudio  
yn y Coleg.





Fel coleg rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau diogelu o ddifrif.

Rydym yn Goleg Encompass.

Mae gan y Coleg Swyddog Diogelu dynodedig ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal


Byddwn yn cymryd rhan yn eich Cynlluniau Llwybr a'ch Adolygiadau Cynllun Gofal a Chymorth.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau diogelu, neu i'n hysbysu o'ch pryderon, e-bostiwch: [safe@pembrokeshire.ac.uk](mailto:safe@pembrokeshire.ac.uk)

Gellir cysylltu â Thîm Diogelu'r Coleg hefyd:  
07813 546 695.

**Cymorth i  
Ddysgwyr  
ag  
Anghenion  
Dysgu  
Ychwanegol  
(ADY)**





Mae gan Goleg Sir Benfro Dîm Pontio Cymorth Dysgu pwrpasol a fydd yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'ch helpu chi i symud i amgylchedd y Coleg.

Bydd aelod o'r tîm hwn yn:

- Mynychu Adolygiad Blynyddol eich Ysgol a darparu gwybodaeth am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y Coleg (ALP) a chynnig cyngor ac arweiniad ar ddewisiadau cyrsiau'r Coleg;
- Gweithio gyda chi, eich ysgol, rhieni, gofalwyr, a Gyrfa Cymru i sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir am y ffordd orau i'ch cefnogi yn ystod eich cyfnod pontio a'ch derbyn i'r Coleg;
- Gofyn i chi am eich dymuniadau a'ch breuddwydion ar gyfer eich dyfodol;

# Cymorth i Ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Parhad...

- Arsylwi arnoch chi yn eich ystafell ddosbarth yn yr ysgol i asesu eich anghenion cymorth dysgu;
- Trafod sut y bydd eich anghenion cymorth dysgu yn cael eu diwallu pan ddewch chi i'r Coleg;
- Eich helpu i wneud cais i'r Coleg a'ch cefnogi trwy'r broses dderbyn;
- Cynnig ymweliad pontio unigol neu grŵp bach i chi â'r Coleg;
- Rhoi dyddiadau Digwyddiadau Agored, Diwrnodau Pontio a Chyswllt y Coleg i chi;



- Rhoi cyswllt a enwir i chi yn y Coleg a fydd yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich pontio personol i'r Coleg;
- Helpu i gynhyrchu neu ddiweddarau'ch Proffil Un Tudalen a'ch Cynllun Datblygu Unigol (IDP);
- Cynnal asesiad ar gyfer trefniadau mynediad i arholiadau;
- Eich cefnogi chi i gael mynediad at gyfleusterau ac offer y Coleg;
- Eich cyfeirio at gyngor ar drafnidiaeth, iechyd, cymorth ariannol a gwasanaethau myfyrwyr;
- Darparu mynediad i ystod eang o dechnoleg gynorthwyol ac addasol, e.e. pennau darllenwyr, troshaenau, gliniaduron, meddalwedd lleferydd i destun, ffotosymbols;
- Eich cefnogi trwy gydol eich amser yn y Coleg; a
- Eich cefnogi gyda'ch camau nesaf unwaith y byddwch chi'n barod i adael y Coleg.

# Cymorth i Ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Parhad....

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gofyn i chi am eich caniatâd i rannu eich gwybodaeth cymorth meddygol neu ddysgu fel y gallwn sicrhau y gallwn eich cefnogi'n llawn yn ystod eich rhaglen Coleg. Gofynnir i chi lenwi ffurflen Gwybodaeth Cymorth Dysgu 'Dyma Fi' fel rhan o'ch cais.

Cyn i chi ddechrau'r Coleg, bydd un o'r tîm Pontio yn cysylltu â chi i drafod eich anghenion yn fwy manwl a hefyd yn cysylltu â'ch ysgol i ofyn iddynt rannu unrhyw ddogfennaeth neu wybodaeth berthnasol am eich cynnydd a'ch anghenion dysgu ychwanegol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu i drefnu ymweliad pontio, neu i ofyn unrhyw gwestiynau am y cymorth dysgu rydym yn ei ddarparu, e-bostiwch:

[learning.support@pembrokeshire.ac.uk](mailto:learning.support@pembrokeshire.ac.uk).

I gael rhagor o wybodaeth am ein cymorth ADY, Darpariaeth Dysgu Cyffredinol a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol, ewch i'n tudalen wybodaeth Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (linc)



# Cymorth i Ddysgwyr sy'n Bryderus, Phobig, sydd ag Anghenion Meddygol neu Iechyd

Mae gennym Weithiwr Proffesiynol Gofal Iechyd ymroddedig sy'n cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion meddygol neu iechyd eraill.


Byddant yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â'ch tiwtoriaid a byddant yn eich cefnogi trwy gydol eich cyfnod pontio i'r Coleg ac yn ystod eich amser yn y Coleg.



# Cymorth i Ddysgwyr LGBTQ+

Mae yna Reolwr Cymorth Dysgu a Chydraddoldeb pwrpasol sy'n cefnogi dysgwyr a allai fod â chwestiynau am fod yn rhan o'r gymuned LGBTQ+ yn y Coleg. Mae grŵp PRIDE sy'n cwrdd yn wythnosol i gynnig cymorth i bob dysgwr a chynghreiriad LGBTQ+. Darperir cyfarwyddyd penodol a chyfeiriadau at LGBTQ eraill hefyd.





# Cymorth i Ddysgwyr sy'n Derbyn neu wedi Derbyn Gofal

Mae yna Swyddog Lles pwrpasol sy'n cefnogi dysgwyr sy'n byw, neu wedi byw mewn gofal ac ymadawyr gofal.


Byddant yn eich cefnogi trwy gydol eich cyfnod pontio i'r Coleg ac yn ystod eich amser yn y Coleg.

# Cymorth i Ddysgwyr sy'n Ofalwyr Ifanc

Mae Arweinydd Gofalwr  
pwrpasol sy'n cefnogi dysgwyr  
sy'n ofalwyr.

Os ydych chi'n helpu unrhyw  
un oherwydd eu salwch,  
eiddilwch, anabledd, problem  
iechyd meddwl neu'n gaeth,  
ac os na allant ymdopi heb  
eich cymorth, a bod y gofal a  
roddwch yn ddi-dâl, yna rydych  
chi'n ofalwr.





# Cymorth i Ddysgwyr sy'n Fwy Abl a Thalentog (MAT)


Yng Ngholeg Sir Benfro rydym yn cydnabod, cefnogi a dathlu talent ym mhob maes. Mae'r Coleg yn cynnig ei raglenni pwrpasol Mwy Abl a Thalentog (MAT) yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn strategaethau cenedlaethol fel Cyfres Cystadleuaeth Sgiliau'r Byd a rhaglen Seren.

# Cymorth i Ddysgwyr sy'n Fwy Abl a Thalentog Parhad...

## Cyfleoedd MAT Lefel-A

Mae'r Coleg yn falch o gynnig ei amserlen flynyddol o ddsbarthiadau meistr a gweithdai byw ac wedi'u recordio dan arweiniad prifysgol, o sefydliadau a gydnabyddir yn fyd-eang fel Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT), Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen ac ystod eang o brifysgolion Cymru a grŵp Russell eraill o fri.





Byddwch hefyd yn cael cyfle i gwblhau ein Cymhwyster Dyfarniad Lefel-A a Phrosiect Estynedig pwrpasol ein hunain.

Os nad prifysgol yw eich cyrchfan, rydym hefyd yn gallu darparu gweithdai a phrosiectau i chi dan arweiniad Dewisiadau Gwaith mewn Addysg.

Fel dysgwyr sy'n dangos llwyddiant academaidd mawr, byddwch hefyd yn cael eich cefnogi i gymryd rhan yn y rhwydwaith Seren cenedlaethol os ydych wedi cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan fwrdd Gweithredol Cenedlaethol Seren. Nodir y rhain isod ar gyfer 2021/22; byddwch yn ymwybodol gall y meini prawf newid:

**Meini Prawf 1:** Mae'r dysgwr wedi cyflawni 6 gradd A\* neu fwy.

**Meini Prawf 2:** Mae gan y dysgwr ddawn eithriadol mewn maes astudio penodol e.e. Mathemateg ac mae'r dysgwr wedi cyflawni o leiaf 5 A\*/A - (TGAU llawn) gyda photensial pellach i wneud cais i Brifysgolion cystadleuol y DU/tramor.

Mae mwy o wybodaeth am Rwydwaith Seren a Hwb Rhanbarthol Sir Benfro ar gael yma:


[Seren - Hwb \(gov.wales\)](https://gov.wales)

# Cyfleoedd Galwedigaethol MAT

Fel yr uchod, fe welwch fod y Coleg yn gallu darparu amserlen flynyddol i chi gyda mynediad at siaradwyr gwadd, gweithdai a gweithgaredd gan arweinwyr diwydiant lleol a chenedlaethol yn dibynnu ar eich maes astudio a rhagoriaeth.







Mae'r Coleg yn cynnig ei Raglenni Cyrchfan cyffrous ei hun mewn sawl maes galwedigaethol, yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan yng Nghyfres Cystadleuaeth WorldSkills o fri rhyngwladol.


Mae mwy o wybodaeth am WorldSkills i'w gweld yma: [WorldSkills UK | Raising Apprenticeships & Technical Education Standards](#)


# Pontio ar gyfer Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg

Mae yma Dîm Datblygu'r Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i gael mynediad at gymorth pontio i'r Coleg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd y tîm yn sicrhau bod eich dewis iaith yn cael ei ddiwallu ac y cewch gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y broses bontio. Os hoffech gael cymorth pontio yn

Gymraeg, e-bostiwch:

[ja.morgan@pembrokeshire.ac.uk](mailto:ja.morgan@pembrokeshire.ac.uk)





# Cymorth i Ddysgwyr 14-16 oed

Mae Coleg Sir Benfro yn falch iawn o fod yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Greenhill, Ysgol Harri Tudur ac Ysgol Caer Elen i ddarparu cyrsiau galwedigaethol un dydd yr wythnos ar ein campws yn Hwlfordd.


Mae'r cwricwlwm amgen yn werth dau TGAU ac mae'n dysgu sgiliau bywyd 14-16 i bobl ifanc 14-16 oed. Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC mewn Peirianeg wedi'i hamserlennu yn nhabl opsiynau TGAU yr ysgol uchod. Addysgir sgiliau crefft i ddysgwyr mewn gweithdai safon diwydiant, sy'n eu paratoi i symud ymlaen i brentisiaeth, Diploma BTEC neu Lefel-A yn yr ysgol neu'r Coleg.

Am ymholiadau, cysylltwch â Hayley Williams:  
[hayleyw@pembrokeshire.ac.uk](mailto:hayleyw@pembrokeshire.ac.uk)

02

**Ein  
Digwyddiadau  
Pontio**





Mae Coleg Sir Benfro yn cynnig ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau fel y gallwch ddod i adnabod y Coleg yn well:


- Nosweithiau Agored\*
- Diwrnod Pontio Blwyddyn 11
- Teithiau 1-1\*
- Apwyntiadau Arweiniad 1-1 (wyneb yn wyneb neu ar-lein)\*
- Digwyddiadau Gyrfaoedd
- Dyddiau Blasu
- Nosweithiau Bistro
- Arddangosfeydd Celf
- Perfformiadau Theatrïg a Cherddorol

\*cyfeiriwch at wefan y Coleg i gael mwy o wybodaeth

03

**Ein  
Partneriaid  
Pontio**





Profir bod pontio sydd wedi'u cynllunio'n briodol mewn modd amserol ac wedi'u cyd-drefnu o amgylch anghenion y dysgwr yn cynyddu cyfraddau cadw a dilyniant i addysg bellach a hyfforddiant ac yn y pen draw i gyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r Coleg yn gweithio gydag ystod o bartneriaid pontio amlasiantaethol sydd hefyd yn ymwneud â'r dysgwr i sicrhau bod y wybodaeth gywir am y dysgwr yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus i'r Coleg.

Mae ein Partneriaid Pontio Allweddol yn cynnwys:

- » Rhieni a Gofalwyr
- » Cyngorwyr Gyrfa Cymru
- » Swyddogion Pontio, Penaethiaid Blwyddyn ac ALNCo pob un o Ysgolion Uwchradd Sir Benfro
- » Timau Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynhwysiant ac Addysg Cyngor Sir Penfro

04

**Angen  
Mwy o  
Wybodaeth?**







I gael mwy o wybodaeth, neu ddiweddariadau ar yr hyn sy'n digwydd yn y Coleg, edrychwch ar ein gwefan neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

-  [colegsirbenfro.ac.uk](http://colegsirbenfro.ac.uk)
-  [@PembsCollege](https://twitter.com/PembsCollege)
-  [colegsirbenfro](https://www.instagram.com/colegsirbenfro)
-  [@colegsirbenfro](https://www.facebook.com/colegsirbenfro)
-  [info@pembrokeshire.ac.uk](mailto:info@pembrokeshire.ac.uk)
-  **01437 753 000**


Ar ein gwefan, fe welwch wybodaeth hefyd ar: Cludiant, Cymorth Ariannol, Darpariaeth Dysgu Cyffredinol y Coleg (ULP) a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (ALP).

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu mwy cymhleth ac sydd am ddatblygu eu sgiliau bywyd, ymwelwch â'n Academi Sgiliau Bywyd.

05

Cwestiynau





Os oes gennych unrhyw gwestiynau,  
neu os ydych am drefnu ymweliad, yna  
e-bostiwch:

[admissions@pembrokeshire.ac.uk](mailto:admissions@pembrokeshire.ac.uk)

Rydym yn edrych ymlaen at gefnogi  
eich pontio llwyddiannus i Goleg Sir  
Benfro.

**Welwn ni chi  
cyn bo hir.**



COLEG Sir Benfro  
Pembrokeshire COLLEGE

---

## Cysylltwch â ni...



@PembsCollege



ColegSirBenfro



@ColegSirBenfro



info@pembrokeshire.ac.uk



01437 753 000



colegsirbenfro.ac.uk

**COLEG SIR BENFRO**

Merlins Bridge  
Hwlffordd  
Sir Benfro  
SA611SZ